Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

12 Rhagfyr 2003

**Anweithgarwch Economaidd**

1. Ar gyfer ei adolygiad polisi arfaethedig mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi dewis edrych i mewn i lefel uchel anweithgarwch economaidd Cymru. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 22 Hydref, trafodwyd papur a baratowyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru *(EDT2 05-03(P3) Codi lefelau gweithgarwch economaidd)*, sy'n nodi cefndir y materion perthnasol ac sy'n trafod rhai o'r ffactorau gwaelodol a'r ystyriaethau polisi.

*2. Dyma fydd cylch gorchwyl yr adolygiad:*

*Ystyried:*

i. *lefelau uchel anweithgarwch economaidd Cymru a'r ffactorau sy'n waelodol iddynt;*

ii. *y polisïau i godi lefelau'r gweithgareddau economaidd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau eraill yn ymgymryd â hwy.*

*iii. gwneud argymhellion ar gyfer datblygu polisi yn y maes hwn.*

3. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cyflwyniadau ysgrifenedig o dystiolaeth oddi wrth bartïon â diddordeb mewn perthynas â'r materion hyn. Ar ôl ystyried y rhain, efallai y bydd y Pwyllgor yn gwahodd rhagor o dystiolaeth lafar.

4. Os byddwch am gyfrannu, dylid anfon cyflwyniadau ysgrifenedig, yn ddwyieithog os oes modd, drwy'r e-bost at Economic.com@Wales.gsi.gov.uk neu fel copi caled at:

Paul Davies
Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

i gyrraedd erbyn dydd Gwener 5 Mawrth 2004.

5. Yn unol ag ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i fod yn agored, byddwn yn rhoi copïau o'r ymatebion ysgrifenedig yn llyfrgelloedd y Cynulliad Cenedlaethol a bydd modd i'r cyhoedd ofyn i'w gweld. A fyddech cystal â nodi os nad ydych yn fodlon i'ch ymateb neu unrhyw ran ohono fod ar gael i'r cyhoedd.

6. Mae croeso ichi roi'r gwahoddiad hwn i unrhyw un arall sydd â diddordeb.

7. Os hoffech unrhyw wybodaeth ychwanegol cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor, John Grimes, ar 029 2089 8225 neu'r Dirprwy Glerc, Sian Wilkins, ar 029 8029 8224.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Christine Gwyther

**Christine Gwyther AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

Gwe safle: http://www.cymru.gov.uk/keypubassemecodevtran/index-w.htm